Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

# Gofyn am gopi o'r Adroddiad Ymchwiliad Tân

Nid yw pob digwyddiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Ymchwiliad Tân, drwy lenwi'r ffurflen hon rydych yn gofyn am gopi o adroddiad sydd eisoes wedi'i gwblhau. **Nid** yw'r ffurflen hon yn gweithredu fel cais i gynnal Ymchwiliad Tân ar ôl digwyddiad. Cynhelir Adroddiadau Ymchwilio i Dân am resymau lluosol, gan gynnwys: ar gais yr Heddlu/Swyddog â Gofal, lle nad yw'r achos yn hysbys, lle mae bywyd wedi'i golli, lle mae colli bywyd neu anaf difrifol yn bosib. (Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn). Dylech ddarllen y ddogfen ganllaw hon yn ofalus, cyn llenwi eich Copi o Ffurflen Gais Adroddiad Ymchwiliad Tân.

Yn aml, mae data personol mewn Adroddiad i Ddigwyddiadau ac Ymchwiliadau i Dân yn gyfyngedig ac yn ymwneud fel arfer ag unrhyw ddioddefwyr a all fod wedi'u hanafu mewn digwyddiad. Fel arfer, gallwn ddatgelu gwybodaeth i feddiannwr eiddo, gyrrwr cerbyd neu rywun sy'n cynnal busnes ar safle ar adeg y digwyddiad yn unig. Fodd bynnag, yn aml rydym yn deall mai'r landlord/asiant gosod neu yswirwyr fydd yn cyflwyno cais am yr Adroddiad Ymchwiliad Tân – yn yr achosion hynny, gallwn ryddhau'r adroddiad, ar yr amod fod gennym ganiatâd yr unigolion hynny. Os oes amryfal bobl yn gysylltiedig â'r digwyddiad, mae angen caniatâd gan bob unigolyn i ryddhau fersiwn sydd heb ei hail-olygu, pe bai'n cynnwys eu data personol neu sail gyfreithiol arall er mwyn datgelu eu data personol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac amddiffyn ymyrraeth ddiangen â phreifatrwydd pobl.

Os ydych chi'n gweithredu ac yn cyflwyno cais ar ran rhywun a bod angen cael yr Adroddiad Ymchwiliad Tân llawn heb ei olygu, rhaid i chi ddarparu caniatâd a dau fath o brawf adnabod gan bawb dan sylw.

Os bydd sawl person yn rhan o adroddiad i ymchwiliad tân, bydd angen caniatâd gan **bob** unigolyn i ryddhau fersiwn heb ei olygu } a ddylai gynnwys data personol. Mae angen cadarnhad wedi'i lofnodi yn adran 3 ar y cais a dau ddull adnabod sydd ar y rhestr gymeradwy fel y dangosir ar Restr Wirio ar gyfer Unigolion Gwefan Llywodraeth y DU i wirio hunaniaeth. https://www.gov.uk/government/publications/proof-of-identity-checklist/proof-of- identity-checklist

# Cwblhau'r Ffurflen Gais

**Adran 1** - Defnyddir y manylion sydd eu hangen yn 'Manylion y Cais a Digwyddiad' i gofnodi a gwerthuso'r sail gyfreithlon i dderbyn Adroddiad yr Ymchwiliad i Dân. Dylid ei llenwi gyda manylion y person sy'n gofyn am y wybodaeth. Nodwch y categori mwyaf priodol sy'n berthnasol i'ch perthynas â'r digwyddiad. Os ydych chi'n gweithredu ar ran rhywun y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef,
(cyfreithiwr/yswiriant) nodwch enw(au) eich cleient(iaid). Fodd bynnag, os nad yw eich perthynas â'r digwyddiad wedi'i nodi, a fyddech cystal ag egluro, mor fanwl â phosibl, yn 'Arall'.

**Adran 2** – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r digwyddiad ei hun. Er mwyn dod o hyd i'r digwyddiad, mae angen gwybodaeth fanwl a chywir. Mae rhan o'r adran hon wedi'i rhannu'n ddwy, naill ai ar gyfer adroddiad sy'n ymwneud ag eiddo neu adroddiad yn ymwneud â cherbyd ffordd.

**Ar gyfer adroddiad ymchwiliad tân yn ymwneud ag eiddo, nodwch pa fath o eiddo yr effeithiwyd arno.** Mae anheddau'n cynnwys: Tŷ, Fflat, Byngalo, Gwesty, Cartrefi Gofal, ac ati.

Mae Adeiladau Dibreswyl yn cynnwys: Lleoliadau Masnachol/Manwerthu, Swyddfeydd, Gweithfeydd Diwydiannol, Warysau, Ysgolion, Canolfannau Adloniant, Cyfleusterau Meddygol, Lleoliadau Chwaraeon, ac ati.

Mae Strwythurau Awyr Agored yn cynnwys: Tomennydd Sbwriel, Mannau Storio Biniau, Bin Olwyn, Ffensys Gardd, Siediau, Pebyll, Blychau Post, ac ati.

**Ar gyfer adroddiad ymchwiliad tân yn ymwneud â cherbyd ffordd, nodwch gymaint o fanylion â phosibl am y cerbyd**

Mae Math o Gerbyd yn cynnwys: Car, Fan, Cartref Modur, Carafán, Amaethyddiaeth, LGV/HGV, Beic Modur, Bws, ac ati.

Parhewch i lenwi gweddill Adran 2, gan gynnwys y dyddiad, yr amser, a'r cyfeiriad. I ailadrodd, os bydd yr adroddiad yn crybwyll, neu'n cynnwys gwybodaeth bersonol am bobl eraill, bydd angen caniatâd a dau ddull adnabod gan bawb sy'n gysylltiedig er mwyn cael mynediad at adroddiad llawn yr ymchwiliad tân.

**Adran 3** – Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, nid oes angen eich prawf adnabod. Fodd bynnag, i brofi bod eich buddiannau'n gyfreithlon, bydd angen i ni gael caniatâd ac adnabyddiaeth gan bawb yr ydych yn gofyn amdanynt ar eu rhan. Os mai chi yw'r ymgeisydd a phreswylydd yr eiddo/gyrrwr y cerbyd, bydd angen eich prawf adnabod, ac eto, os oes mwy o bobl yn gysylltiedig, bydd angen cael eu caniatâd a dau fath o brawf adnabod. Defnyddiwch y slipiau caniatâd ychwanegol yn Adran 3 i gasglu caniatâd eraill (os yw'n berthnasol) – os oes angen mwy, cysylltwch â'r adran Llywodraethu Gwybodaeth.

Ar ôl derbyn ffurflen gais orffenedig a bodlon, a fyddwn wedyn yn cynnal chwiliad i holi a gwblhawyd Adroddiad Ymchwiliad Tân ar gyfer y digwyddiad y gofynnwyd amdano. Os cwblhawyd Adroddiad Ymchwiliad Tân, byddwn wedyn yn eich hysbysu o'ch rhif cyfeirnod IG00 unigryw ac i wneud taliad. Os na chwblhawyd Adroddiad Ymchwiliad Tân fel rhan o'r digwyddiad, byddwn yn eich hysbysu o hyn hefyd. Gall gymryd hyd at un mis calendr ar ôl derbyn taliad i gyhoeddi Adroddiad Ymchwilio i Dân.

## Taliadau

Dychwelwch eich Copi gorffenedig o'r Ffurflen Gais Adroddiad Ymchwiliad Tân i LlywodraethuGwybodaeth@decymru-tan.gov.uk neu'r cyfeiriad post isod, cyn talu. Ar ôl i ni dderbyn eich ffurflen gais gorffenedig, bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi Cyfeirnod IG unigryw i chi.

I gwmpasu'r amser a dreuliwyd yn paratoi, ymchwilio a gweinyddu'r adroddiad ymchwiliad tân, mae angen codi ffi o **£618.00** (gan gynnwys TAW).

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu adnabod eich taliad, mae'n rhaid i chi **gyfeirio** eich Cyfeirnod IG unigryw wrth godi taliad.

Gellir talu drwy'r System Glirio Awtomataidd Bancwyr (BACS). Fel arall, amgaewch siec yn daladwy i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol, ynghyd â'r dogfennau a ddisgrifir yn y ddogfen ganllaw hon:

**Llywodraethu Gwybodaeth**
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De
Cymru Parc Busnes Forest View
Llantrisant,
CF72 8LX

**Manylion BACS**

Enw'r Cyfrif: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
Cod Didoli: 30-80-12
Rhif y Cyfrif: 20158268
Banc Lloyds, Swyddfa'r Ddinas, Blwch Post 72, Bailey Drive, Parc Busnes Gillingham, Caint, ME8 0LS. Anfonwch y taliad drwy law e-bost i infoisgwerthiannau@decymrutandecymru.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

# Ffurflen Gais Adroddiad Ymchwiliad Tân

| **Adran 1 – Manylion y Ceisydd a'r Digwyddiad** | |
|---|---|
| Enw: (y sawl sy'n gwneud y cais) | |
| Sefydliad/Cwmni: (os yn gymwys) | |
| Llofnod: (Ysgrifenedig neu Ddigidol) | |
| Cyfeiriad: (y sawl sy'n gwneud y cais) | |
| Cyfeiriad e-bost: (y sawl sy'n gwneud y cais) | |
| Rhif Ffôn: (y sawl sy'n gwneud y cais) | |
| **Beth yw eich cysylltiad â'r digwyddiad?** | |
| Perchennog yr Eiddo/Cerbyd | ☐ |
| Preswylydd yn yr Eiddo/Gyrrwr y Cerbyd | ☐ |
| Ymwelydd yn yr Eiddo/Teithiwr yn y Cerbyd | ☐ |
| Cynrychiolydd Cyfreithiol (e.e. Yswiriwr, cyfreithiwr) | ☐ Nodwch ar gyfer pwy yr ydych chi'n Gynrychiolydd Cyfreithiol: |
| Arall<br>Os nad yw unrhyw un o'r disgrifiadau'n berthnasol, rhowch wybodaeth am eich perthynas â'r eiddo, a pham rydych chi'n gofyn am y wybodaeth. | |

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

| **Adran 2 – Manylion y Digwyddiad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwblhewch yr adran hon os yw adroddiad yr ymchwiliad tân yn ymwneud ag eiddo.** | | | | **Cwblhewch yr adran hon os yw adroddiad yr ymchwiliad tân yn ymwneud â cherbyd ffordd.** |
| **Math o eiddo:** | Annedd: ☐ | Adeiladau Dibreswyl: ☐ | Strwythurau Awyr agored: ☐ | Math o Gerbyd: |
| Arall: | | | | Mêc a Model y Cerbyd: |
| | | | | Rhif Cofrestru'r Cerbyd: |
| Dyddiad y Digwyddiad: | | | | Amser y Digwyddiad: (yn fras) |
| Cyfeiriad y Digwyddiad: | | | | Rhif Digwyddiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: (os yw'n hysbys) |

| | | |
|---|---|---|
| A oedd rhywun heblaw chi yn yr eiddo/cerbyd adeg y digwyddiad? (Os oedd, bydd angen i chi gael caniatâd gan **bawb** a oedd yn yr eiddo/cerbyd, fel arall **bydd eu data personol yn cael eu hail-olygu).** | Oedd: ☐ | Nac oedd: ☐ |

| **Adran 3**<br>Adnabod a chydsynio. | |
|---|---|
| **Datganiad - Rwy'n cadarnhau fy mod yn breswylydd/ymwelydd yn yr eiddo neu'n deithiwr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad ac rwy'n rhoi caniatâd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddarparu copi o eu Hadroddiad Ymchwiliad Tân, sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol amdanaf i'r unigolyn/sefydliad uchod (os yn briodol).** | |
| Enw: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| Dull adnabod 1): | Dull adnabod 2): |

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

| | |
|---|---|
| **<u>Adran 3</u>**<br>Adnabod a chydsynio.<br><br>Os oedd rhagor o breswylwyr/ymwelwyr â'r eiddo neu deithwyr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad, defnyddiwch y blychau ychwanegol hyn i roi eu hunaniaeth a'u caniatâd. | |
| **Datganiad - Rwy'n cadarnhau fy mod yn breswylydd/ymwelydd yn yr eiddo neu'n deithiwr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad ac rwy'n rhoi caniatâd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddarparu copi o eu Hadroddiad Ymchwiliad Tân, sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol amdanaf i'r unigolyn/sefydliad uchod (os yn briodol).** | |
| Enw: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| Dull adnabod 1): | Dull adnabod 2): |

| | |
|---|---|
| **<u>Adran 3</u>**<br>Adnabod a chydsynio.<br><br>Os oedd rhagor o breswylwyr/ymwelwyr â'r eiddo neu deithwyr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad, defnyddiwch y blychau ychwanegol hyn i roi eu hunaniaeth a chaniatâd. | |
| **Datganiad - Rwy'n cadarnhau fy mod yn breswylydd/ymwelydd yn yr eiddo neu'n deithiwr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad ac rwy'n rhoi caniatâd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddarparu copi o eu Hadroddiad Ymchwiliad Tân, sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol amdanaf i'r unigolyn/sefydliad uchod (os yn briodol).** | |
| Enw: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| Dull adnabod 1) | Dull adnabod 2): |

| | |
|---|---|
| **<u>Adran 3</u>**<br>Adnabod a chydsynio.<br><br>Os oedd rhagor o breswylwyr/ymwelwyr â'r eiddo neu deithwyr yn y cerbyd adeg y digwyddiad, defnyddiwch y blychau ychwanegol hyn i roi manylion am eu hunaniaeth a chaniatâd. | |
| **Datganiad - Rwy'n cadarnhau fy mod yn breswylydd/ymwelydd yn yr eiddo neu'n deithiwr yn y cerbyd ar adeg y digwyddiad ac rwy'n rhoi caniatâd i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddarparu copi o eu Hadroddiad Ymchwiliad Tân, sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol amdanaf i'r unigolyn/sefydliad uchod (os yn briodol).** | |
| Enw: | |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |
| Dull adnabod 1) | Dull adnabod 2): |